

## Tasg 1

# Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru

1. Rhwch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o **un** i **chwech**.

Ysgrifennodd Eleri Gwilym ddatganiad personol.	
Dechreuodd Eleri Gwilym astudio yn yr Academi yn Llundain.	
Cafodd y clyweliad cyntaf yn Llundain.	
Roedd Eleri Gwilym yn canu pan oedd yn yr ysgol yn Abertawe.	
Astudiodd hi'r Gyfraith yng Nghaerdydd.	
Cafodd Eleri Gwilym ail glyweliad a chyfweliad.	

2. Pa **un** o'r rhain sydd **ddim** yn rhan o'r cwrs canu?  
Ticiwch **un**.

a) dysgu sut mae lliwio darn

b) dysgu ieithoedd

c) gwersi drama

ch) cymryd rhan mewn golygfeydd o operâu

d) sesiynau ynganu ieithoedd

dd) mynd i wyluo operâu

e) gwersi symud

f) dysgu sut i ganu'n gywir yn dechnegol

3. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y cyfweiliad ag Eleri Gwilym:

y Gyfraith amserlen	arholiadau canu ieithoedd	cwmni opera hen offerynnau
------------------------	------------------------------	-------------------------------

4. Beth yw ystyr 'lliwio darn'?

Ticiwch **un**.

Dangos ystyr darn drwy ganu gydag offeryn arall

Dangos ystyr darn drwy ganu'n dawel neu'n gryf

Defnyddio pensiliau lliw i addurno darn o gerddoriaeth

Defnyddio'r llais i wneud sŵn cryf

5. Tynnwch **bedair** llinell i gysylltu'r gair â'r diffiniad.

uchelgais

chwarae offeryn tra bydd rhywun  
arall yn canu neu'n dawnsio

opera

rhywbeth yr hoffech ei wneud  
yn y dyfodol

ynganu

drama gyda cherddoriaeth glasurol

cyfeilio

gwneud seiniau, dweud

6. Dewiswch a chopiwch yr ymadroddion o'r darn sydd â'r un ystyr â'r rhain:

a) wrth fy modd

b) hefyd

c) gwneud dim byd

ch) heb fod ymhell o

d) gwrando'n astud

dd) pwysig dros ben

e) rhywbeth i anelu ato

7. Edrychwch eto ar y berfenw: **clustfeinio**. Beth yw'r elfennau (darnau) sy'n rhan o'r berfenw? Dyma ragor o ferfenwau sy'n cynnwys rhannau o'r corff. Beth yw eu hystyr?

troedio (*troed + io*)

breichio (*braich + io*)

penio (*pen + io*)

llawio (*llaw + io*)

bolaheulo (*bol + haul + o*)

pendrymu (*pen + trwm + u*)

8. Ysgrifennwch frawddegau sy'n defnyddio'r patrymau hyn, gan newid y geiriau mewn print italig:
- a) Roeddwn i'n mwynhau *canu* pan oeddwn i'n ifanc iawn.
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  - b) Roeddwn i ar ben fy nigon pan *gefais wybod imi gael lle*.
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  - c) Hoffwn ganu gyda *chwmni opera*, dyna'r nod.
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  - ch) Rwy'n credu bod hyn yn ein dysgu i *glustfeinio ar yr iaith er mwyn gwella'r ffordd rydyn ni'n ei hynganu*.
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  - d) Bues i'n cystadlu mewn *eisteddfodau* pan oeddwn i'n ddisgybl yn ....
9. Beth yw **eich uchelgais chi**? Ydych chi'n gwybod beth yw'r camau y mae angen eu dilyn er mwyn **cyflawni eich uchelgais**? Ymchwiliwch, efallai y bydd hynny'n effeithio ar y pynciau y bydd angen i chi eu hastudio o Flwyddyn 10 ymlaen.
10. Ymchwiliwch i hanes unrhyw un sydd o ddiddordeb i chi, e.e. chwaraewr rygbi, pêl-droed, seren bop. Gwnewch nodiadau o'r wybodaeth. Yna trowch y wybodaeth yn gyfweiliad byr dychmygol.